OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1687

## Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015

## RHAN 1

### Enwi a dehongli

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "cymhwyster perthnasol" yr un ystyr ag a roddir i "relevant qualification" yn adran 30 o Ddeddf 1997(**1**) fel y mae'r adran honno mewn grym yn union cyn 21 Medi 2015;

ystyr "Deddf 1997" ("*the 1997 Act*") yw Deddf Addysg 1997(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cymwysterau Cymru 2015;

ystyr "y Gronfa Ddata" ("*the Database*") yw'r gronfa ddata a gyhoeddir ar-lein(**3**) o'r enw "y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru" ac a elwir hefyd yn "DAQW".

(**1**) Gwneir diwygiadau i adran 30 o Ddeddf 1997 sy'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn gan: Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 103(1) a (4)(c) ac Atodlen 11; Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005 (O.S. 2005/3239) (Cy. 244), Atodlen 1, paragraffau 6, 14, a 15(b) ac (ch); a Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), Atodlen 12, paragraffau 12 a 15 ac Atodlen 16, Rhan 4.

(**2**) 1997 p. 44. Mae llawer o ddiwygiadau i Ran 5 o'r Ddeddf hon.

(**3**) Ar 21 Medi 2015, mae'r gronfa ddata hon i'w gweld yn www.daqw.org.uk.